

Awst 2018

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Menter Twyll 2018-19 Manylebau Data



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHMILO CYMRU



Cynnwys

Menter Twyll Genedlaethol 2018-19 - Manylebau Data

Cyflwyniad	4
Manyleb data ddrafft	4
Newidiadau 2018-19 arfaethedig	4
Cyflogres: Manyleb data 2018-19	5
Pensiynau: Manyleb data 2018-19	7
Tenantiaid Tai: Manyleb data 2018-19	9
Rhestr aros am dai: Manyleb data 2018-19	12
Cleifion cartrefi gofal â chymorth preifat: Manyleb data 2018-19	13
Parcio i Breswylwyr a Bathodynau Glas: Manyleb data 2018-19	14
Tocynnau teithio rhatach: Manyleb data 2018-19	15
Trwyddedau: Manyleb data 2018-19 (yn cynnwys trwyddedau masnachwyr marchnad, trwyddedau gyrywyr tacsis a thrwyddedau personol ar gyfer cyflenwi alcohol)	16
Treth Gyngor: Manyleb data 2018-19	20
Cofrestru etholiadol: manyleb data 2018-19	25
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: Manyleb data 2018-19	26
Data hanes taliadau credydwyr masnach: Manyleb data 2018-19	29
Data sefydlog credydwyr masnach: Manyleb data 2018-19	30
Cyllidebau personol: Manyleb data 2018-19	32

Atodiadau

Atodiad 1 – Setiau Data i'w cyflwyno gan gyfranogwyr y Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer Menter Twyll Genedlaethol 2018-19	34
---	----

Y Fenter Twyll Genedlaethol

Cyflwyniad

- 1 Ymarfer paru data yw'r Fenter Twyll Genedlaethol. Mae wedi'i chynnal bob dwy flynedd ers 1996 a, hyd yma, fe'i defnyddiwyd i ganfod twyll a gordaliadau gwerth £1.69 biliwn ledled y DU.
- 2 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru yn cael ei chynnal gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan ei bwerau paru data statudol a nodir yn Rhan 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. O dan y ddeddfwriaeth hon, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn:
 - gallu cynnal ymarferion paru data er mwyn helpu i rwystro a chanfod twyll;
 - gallu ei gwneud yn ofynnol i gyrff penodol roi data ar gyfer ymarferion paru data;
 - gallu derbyn cyflwyniadau data ar sail wirfoddol;
 - gorfod rhagnodi graddfa neu raddfeydd ffioedd ar gyfer ymarferion para data gorfodol;
 - gallu codi ffi am ymarferion paru data gwirfoddol; a
 - gorfod ymgynghori â chyfranogwyr gorfodol a rhanddeiliaid perthnasol cyn rhagnodi'r raddfa neu raddfeydd ffioedd gorfodol.
- 3 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r manylebau data llawn ar gyfer ymarfer Menter Twyll Genedlaethol 2018-19. Mae Atodiad 1 yn nodi'r setiau data y dylid eu cyflwyno fesul math o gyfranogwr.
- 4 Mae amserlen lawn Menter Twyll Genedlaethol 2018-19 ar gael ar ein [gwefan](#).

Manylebau data

Newidiadau 2018-19

- 5 Adolygir manylebau data'r Fenter Twyll Genedlaethol cyn pob ymarfer Menter Twyll Genedlaethol.
- 6 Er i gyn lleied â phosibl o newidiadau gael eu gwneud, mae rhai newidiadau yn angenrheidiol er mwyn gwella'r broses baru ac ansawdd y parau.
- 7 Dangosir crynodeb o'r newidiadau arfaethedig ar gyfer ymarfer 2018-19 yn y tabl canlynol.

Manyleb data	Crynodeb o'r newidiadau o fanyleb 2016-17
Cyflogres	Wedi ychwanegu rhif ffôn (cartref a symudol) Wedi ychwanegu rhif pasbort Wedi ychwanegu cyfeiriad e-bost
Yswiriant	<ul style="list-style-type: none"> Ni fydd angen y set ddata hon ar gyfer ymarfer 18/19.
Trwyddedau	<ul style="list-style-type: none"> Rhannwyd yn dair manyleb data ar wahân yn seiliedig ar adborth defnyddwyr.
Cyflogres	<ul style="list-style-type: none"> Mân newidiadau i'r geiriad
Pensiynau	<ul style="list-style-type: none"> Mân newidiadau i'r geiriad Rhannwyd yn dair manyleb data ar wahân yn seiliedig ar adborth defnyddwyr.
Cleifion Cartrefi Gofal â Chymorth Preifat	<ul style="list-style-type: none"> Newidiwyd i adlewyrchu'r ffaith mai dim ond pan fydd y cyngor yn talu am yr holl ofal, neu ran o'r gofal y dylai data ar gyfer preswylwyr cartrefi gofal presennol gael eu lanlwytho.
Cludiant/Teithio Rhatach	<ul style="list-style-type: none"> Newidiwyd i adlewyrchu'r ffaith mai dim ond data oedolion sydd eu hangen. Rhannwyd yn dair manyleb data ar wahân yn seiliedig ar adborth defnyddwyr.
Hanes Credydwr Masnach	<ul style="list-style-type: none"> Mân newidiadau i'r geiriad
Data Sefydlog Credydwr Masnach	<ul style="list-style-type: none"> Dim newid
Cyllidebau Personol	<ul style="list-style-type: none"> Dim newid
Treth Gyngor	<ul style="list-style-type: none"> Dim newid
Y Gofrestr Etholiadol	<ul style="list-style-type: none"> Dim newid
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	<ul style="list-style-type: none"> Dim newid

Cyflogres: Manyleb data 2018-19

Gofynion

- Dylai data a gyflwynir fodloni'r fanyleb data hon h.y. cynnwys pob enw maes.
- Dim ond** drwy'r cyfleuster Lanlwytho Ffeiliau Data (DFU) y dylid cyflwyno data. Bellach dyma'r unig ddull derbynol o gyflwyno data. Os caiff dull cyflwyno arall ei ddefnyddio, ein polisi yw hysbysu'r Uwch Swyddog Cyfrifol/Cyfarwyddwr Cyllid bod data wedi'u rhoi mewn perygl yn ddiangen.
- Dylid darparu **pob** cyflogres (er enghraifft, misol, wythnosol a chwarterol, aelodau/cynghorwyr, ysgolion ac athrawon). Fodd bynnag, ni ddylid darparu data mewn perthynas â chyflogresi a broseswyd ar gyfer sefydliadau eraill ar sail asiantaeth oni bai bod:

- hyn wedi'i awdurdodi gan y sefydliad; a
 - bod y sefydliad wedi cadarnhau bod Hysbysiad Preifatrwydd wedi'i gyflwyno.
- 11 Sicrhewch y caiff un ffeil ar gyfer pob sefydliad ei lanlwytho **h.y.** peidiwch â chyflwyno un ffeil sy'n cyfuno cyflogeion yr Heddlu, yr Awdurdod Tân a'r Cyngor Sir.
- 12 Sicrhewch mai dim ond un cofnod sydd ar gyfer pob cyflogai h.y. dylid cyfuno manylion cyflogeion unigol sydd â mwy nag un swydd i greu un cofnod. Er enghraifft, ar gyfer cyflogeion sydd â sawl swydd, dylai 'Cyflog gros hyd yma' ac 'Oriau safonol yr wythnos' ar gyfer pob swydd gael eu hadio i roi cyfansymiau cyfunol ar gyfer y ddau faes hynny. Dylai meysydd eraill fel 'Dyddiad dechrau', 'Cod didoli' a 'Cyfrif banc' gael eu darparu o'r brif swydd (enillion mwyaf).
- 13 Dim ond cyflogeion **presennol** y dylid eu cynnwys.

Enw'r maes	Fformat y data	Sylwadau
Rhif cyfeirnod y gweithiwr	Nod	
Rhif post cyflogai	Nod	
Adran	Nod	
Teitl	Nod	
Rhyw	Nod	
Cyfenw	Nod	
Enw(au) cyntaf	Nod	
Enw(au) canol	Nod	
Cyfeiriad llinell 1	Nod	
Cyfeiriad llinell 2	Nod	
Cyfeiriad llinell 3	Nod	
Cyfeiriad llinell 4	Nod	
Cod Post	Nod	
Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN)	Nod	Maes newydd - dylai'r maes newydd hwn wella'r broses o baru cyfeiriadau yn sylweddol.
Dyddiad Geni	Dyddiad	
Rhif ffôn gartref	Nod	
Rhif ffôn symudol	Nod	
Cyfeiriad e-bost	Nod	
Rhif Pasbort	Nod	
Dyddiad dechrau	Dyddiad	
Dyddiad gadael	Dyddiad	Wedi'i gynnwys fel gwiriad annibynnol sydd ond yn cynnwys cyflogeion presennol.

Enw'r maes	Fformat y data	Sylwadau
Dangosydd ymadawr	Nod	
Rhif Yswiriant Gwladol	Nod	
Baner amser llawn/rhan-amser	Nod	Rhowch 'F' ar gyfer amser llawn (wedi ei gyflogi am fwy na 30 awr yr wythnos), 'P' ar gyfer rhan-amser (wedi ei gyflogi am lai na 30 awr yr wythnos) neu 'C' ar gyfer cyflogeion achlysurol/yn ôl y galw
Cyflog gros hyd yma	Rhifol	Dylai hyn fod yn gyflog gros hyd yma NID cyflog trethadwy hyd yma ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19 hyd at ddyddiad echdynnu'r data. Peidiwch â chyflwyno cofnod os mai sero yw'r maes hwn.
Oriau safonol yr wythnos	Rhifol	ee, 16 awr fel 1600.
Dyddiad talu diwethaf	Dyddiad	
Baner athro	Nod	Rhowch 'T' am athro.
Cod didoli ¹	Nod	Chwe nod rhifol mewn grwpiau o ddau y gellir eu gwahanu â chysylltnodau e.e. 20-45-23.
Cyfrif banc ¹	Nod	Wyth nod rhifol fel arfer.
Rhif cofrestru'r gymdeithas adeiladu ¹	Nod	Mae gan gymdeithasau adeiladu rif cofrestru lle y telir symiau ar ôl cael eu talu i un cyfrif. ¹

1

Mae'r meysydd hyn yn cael eu casglu at ddibenion cyfatebol yn unig ac ni chaiff eu dangos o fewn unrhyw gemau a drosglwyddir yn ôl i'r cyfranogwyr i'w hadolygu

Pensiynau: Manyleb data 2018-19

Gofynion

- 14 Dylai data a gyflwynir fodloni'r fanyleb data hon h.y. cynnwys pob enw maes.
- 15 Dim ond drwy'r cyfleuster Lanlwytho Ffeiliau Data (DFU) y dylid cyflwyno data. Bellach dyma'r unig ddull derbyniol o gyflwyno data. Os caiff dull cyflwyno arall ei ddefnyddio, ein polisi yw hysbysu'r Uwch Swyddog Cyfrifol/Cyfarwyddwr Cyllid bod data wedi'u rhoi mewn perygl yn ddiangen.
- 16 Os yw data yn cael ei gyflwyno ar gyfer gwagedd/gwŷr gweddw sy'n cael pensiwn dylech sicrhau y caiff enw, dyddiad geni a Rhif Yswiriant Gwladol y wraig weddw/gŵr gweddw eu cyflwyno ac nid rhai'r pensiynwr gwreiddiol.
- 17 Er mwyn sicrhau bod y broses o gyflwyno data gan ddefnyddio'r cyfleuster Lanlwytho Ffeiliau Data (DFU) mor syml â phosibl dylid lanlwytho data mewn tair ffeil ar wahân:
 - pensiynwyr presennol h.y. y rhai sy'n cael pensiwn ar hyn o bryd;
 - pensiynwyr sy'n cael arian rhodd pensiwn ar hyn o bryd (os yw'n gymwys); a
 - phensiynwyr gohiriedig nad ydynt yn cael taliadau pensiwn ar hyn o bryd (dewisol). Nodwch unrhyw bensiynau

Maes 1 = Pensiynwyr presennol h.y. y rhai sy'n cael pensiwn ar hyn o bryd

Maes 2 = Pensiynwyr sy'n cael arian rhodd pensiwn ar hyn o bryd (os yw'n gymwys)

Maes 3 = Pensiynwyr gohiriedig nad ydynt yn cael taliadau pensiwn ar hyn o bryd (dewisol). Noder y dylid cynnwys unrhyw bensiynau sy'n cael eu talu ar hyn o bryd yn Ffeil 1 'pensiynwyr presennol'

Cyfenw	Fformat y data	Sylwadau	Meysydd gofynnol		
			1	2	3
Cyfeirnod y cyflogai	Nod		le	le	le
Rhif swydd y cyflogai	Nod	Gadewch yn wag os nad yw'n gymwys, ond peidiwch â hepgor y maes hwn.	le	le	le
Teitl	Nod		le	le	le
Rhyw	Nod		le	le	le
Cyfenw	Nod		le	le	le
Enw(au) cyntaf	Nod	Sicrhewch eich bod yn nodi unrhyw enw/enwau canol neu lythyren gyntaf/llythrennau cyntaf unrhyw enw/enwau canol. Gallwch nodi'r rhain mewn maes enw/enwau canol neu lythyren gyntaf/llythrennau cyntaf enw/enwau canol ar wahân neu yn y gell 'enw(au) cyntaf' os byddai'n well gennych.	le	le	le
Enw/enwau canol neu lythyren gyntaf/llythrennau cyntaf enw/enwau canol	Nod		le	le	le
Cyfeiriad llinell 1	Nod		le	le	le
Cyfeiriad llinell 2	Nod		le	le	le
Cyfeiriad llinell 3	Nod		le	le	le
Cyfeiriad llinell 4	Nod		le	le	le
Cod Post	Nod		le	le	le
Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN)	Nod		le	le	le
Dyddiad Geni	Dyddiad		le	le	le
Dyddiad dechrau'r pensiwn	Dyddiad		le	le	le
Dyddiad terfynu cyflogaeth	Dyddiad	Wedi'i gynnwys fel gwiriad annibynnol sydd ond yn cynnwys pensiynwyr.	le	le	le
Dangosydd ymadawr	Nod		le	le	le
Dangosydd gwraig weddw/gŵr gweddw pensiynwr	Nod	Rhowch 'W' ar gyfer gwraedd sy'n cael pensiwn a sicrhewch y caiff enw,	le	Na	Na

Cyfenw	Fformat y data	Sylwadau	Meysydd gofynnol		
			1	2	3
Rhif Yswiriant Gwladol	Nod	dyddiad geni a rhif yswiriant cenedlaethol y wraig weddw/gŵr gweddw eu cyflwyno yn hytrach na rhai'r pensynwr gwreiddiol.	le	le	le
Pensiwn gros hyd yma	Rhifol	Dylai hyn fod yn bensiwn gros hyd yma ac nid y pensiwn trethadwy hyd yma. Peidiwch â chyflwyno cofnod os mai sero yw'r maes hwn.	le	le	Na
Dyddiad talu diwethaf	Dyddiad		le	le	Na
Baner pensiwn anaf	Nod	Pensiynau'r Heddlu a'r Gwasanaeth Tân yn unig. Dylech gynnwys 'Y' yn y maes hwn os yw'r pensynwr yn cael taliadau pensiwn ychwanegol oherwydd anafiadau a gafwyd yn y gwaith.	le	Na	Na
Baner ymddeol oherwydd salwch	Nod	Dylech gynnwys 'Y' yn y maes hwn os ymddeolodd y pensynwr oherwydd salwch. Bydd hyn yn cynorthwyo gwaith paru at ddibenion lleihau pensiynau.	le	Na	Na

Tenantiaid Tai: Manyleb data 2018-19

Gofynion

- 18 Dylai data a gyflwynir fodloni'r fanyleb data hon h.y. cynnwys pob enw maes.
- 19 Dim ond drwy'r cyfleuster Lanlwytho Ffeiliau Data (DFU) y dylid cyflwyno data; bellach dyma'r unig ddull derbyniol o gyflwyno data. Os caiff dull cyflwyno arall ei ddefnyddio, ein polisi yw hysbysu'r Uwch Swyddog Cyfrifol bod data wedi'u rhoi mewn perygl yn ddiangen.
- 20 Dim ond mewn perthynas ag eiddo preswyl y dylid darparu data. Peidiwch â chyflwyno data ar gyfer garejis, siediau ac ati.
- 21 Dylid darparu data am bob tenant a enwyd h.y. tenantiaid a enwyd gyntaf, tenantiaid ar y cyd neu denantiaid eraill. Peidiwch â darparu data am ddibynnyddion.
- 22 Er mwyn sicrhau bod y broses o gyflwyno data gan ddefnyddio'r cyfleuster Lanlwytho Ffeiliau Data (DFU) newydd mor syml â phosibl dylid bellach lanlwytho data mewn dwy ffeil ar wahân:

- tenantiaid presennol a enwyd gan gynnwys y rhai lle mae proses hawl i brynu yn mynd rhagddi; a
- chyn-denantiaid a gwblhaodd gais am hawl i brynu rhwng 1 Ebrill 2016 a'r dyddiad echdynnu (3 Hydref 2018), neu o leiaf rhwng 1 Ebrill 2016 a'r dyddiad echdynnu.

Maes 1 = Tenantiaid presennol a enwyd gan gynnwys y rhai lle mae proses hawl i brynu yn mynd rhagddi

Maes 2 = Cyn-denantiaid a gwblhaodd gais am hawl i brynu rhwng 1 Ebrill 2016 a'r dyddiad echdynnu (3 Hydref 2018), neu o leiaf rhwng 1 Ebrill 2016 a'r dyddiad echdynnu.

Cyfenw	Fformat y data	Sylwadau	Meysydd gofynnol	
			1	2
Baner statws tenant	Nod	Rhowch faner i nodi p'un ai tenant a enwyd gyntaf neu denant arall ydyw: <ul style="list-style-type: none"> 'F' am denant a enwyd gyntaf neu denant ar y cyd 'O' am yr 2il, 3ydd, ac ati tenant a enwyd 	le	le
Cyfenw	Nod		le	le
Enw(au) cyntaf	Nod		le	le
Enw/enwau canol neu lythyren gyntaf/llythrennau cyntaf enw/enwau canol	Nod	Sicrhewch eich bod yn nodi unrhyw enw/enwau canol neu lythyren gyntaf/llythrennau cyntaf unrhyw enw/enwau canol. Gallwch ddarparu hyn mewn maes enw/enwau canol neu lythyren gyntaf/llythrennau cyntaf enw/enwau canol ar wahân neu yn y gell 'enw(au) cyntaf' os byddai'n well gennych.	le	le
Cyfeiriad llinell 1	Nod	Os yw'r cyfeiriad yn gyfeiriad parhaol.	le	le
Cyfeiriad llinell 2	Nod		le	le
Cyfeiriad llinell 3	Nod		le	le
Cyfeiriad llinell 4	Nod		le	le
Rhif ffôn gartref	Nod	Cesglir y meysydd hyn at ddibenion paru yn unig ac ni chânt eu dangos o fewn unrhyw barau a drosglwyddir yn ôl i gyfranogwyr eu hadolygu. Darparwch os yw ar gael	le	le
Rhif ffôn symudol	Nod		le	le
Cyfeiriad e-bost	Nod		le	le
Cod Post	Nod		le	le
Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN)	Nod	Os caiff y maes hwn ei gipio. Awdurdodau lleol yn unig.	le	le
Dyddiad Geni	Dyddiad		le	le
Rhif Yswiriant Gwladol	Nod		le	le
Nifer yr unigolion sy'n byw'n barhaol yn y cyfeiriad	Rhifol		le	
Cyfeirnod y tenant/cyfrif	Nod	Mae hyn yn enwi'r unigolyn yn unig.	le	ie
Cyfeirnod Budd-dal Tai	Nod	Mae'n cynnwys y cyfeirnod budd-dal tai os yw'n gymwys.	le	le
Baner hawl i brynu	Nod	Rhowch 'I' yn y maes hwn i nodi lle mae proses brynu yn mynd rhagddi (tenant	le	le

Cyfenw	Fformat y data	Sylwadau	Meysydd gofynnol	
			1	2
		presennol) o dan hawl i brynu neu 'C', os yw'r broses brynu wedi'i chwblhau (cyn-denant).		
Cam cais hawl i brynu	Rhifol	Nodwch gam 1 i 11 yn unol â Chanllawiau'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ar gamau cais hawl i brynu (gall systemau lleol amrywio.)	le	le
Dyddiad dechrau'r denantiaeth	Dyddiad		le	Na
Dyddiad gorffen tenantiaeth	Dyddiad	Wedi'i gynnwys fel gwiriad annibynnol sydd ond yn cynnwys tenantiaid presennol.	le	le
Dyddiad cwblhau hawl i brynu	Dyddiad		Na	le
Swm y disgownt hawl i brynu a ddyfarnwyd	Rhifol		Na	le

Rhestr aros am dai: Manyleb data 2018-19

Gofynion

- 23 Dylai data a gyflwynir fodloni'r fanyleb data hon h.y. cynnwys pob enw maes.
- 24 Dim ond drwy'r cyfleuster Lanlwytho Ffeiliau Data (DFU) y dylid cyflwyno data; dyma'r unig ddull derbyniol o gyflenwi data. Os caiff dull cyflwyno arall ei ddefnyddio, ein polisi yw hysbysu'r Uwch Swyddog Cyfrifol bod data wedi'u rhoi mewn perygl yn ddiangen.
- 25 Dim ond mewn perthynas ag eiddo preswyl y dylid darparu data. Peidiwch â chyflwyno data ar gyfer garejys, siediau ac ati.
- 26 Dylai data gael eu darparu ar gyfer pob ymgeisydd a enwir sydd naill ai'n gwneud cynnig am eiddo neu'n gymwys i wneud cynnig am eiddo gan y tybiwyd eu bod yn flaenoriaeth uwch. Dangosodd y cynllun peilot fod y canlyniadau gorau o'r set ddata hon yn cael eu cyflawni pan oedd y data a lanlwythwyd wedi eu cyfyngu i'r unigolion hyn.

Enw maes	Fformat y data	Sylwadau
Cyfeirnod y rhestr aros	Nod	Mae hyn yn nodi'r person neu'r cais mewn ffordd unigryw os oes mwy nag un ymgeisydd a enwir.
Cyfenw	Nod	

Enw maes	Fformat y data	Sylwadau
Enw(au) cyntaf	Nod	
Cyfeiriad llinell 1	Nod	
Cyfeiriad llinell 2	Nod	
Cyfeiriad llinell 3	Nod	
Cyfeiriad llinell 4	Nod	
Cod Post	Nod	
Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN)	Nod	Os caiff y maes hwn ei gipio. Awdurdodau lleol yn unig.
Dyddiad Geni	Dyddiad	
Rhif Yswiriant Gwladol	Nod	Darperir os yw ar gael.
Cyfeirnod Budd-dal Tai	Nod	Mae'n cynnwys y cyfeirnod budd-dal tai os yw'n gymwys.
Dyddiad dechrau'r cais	Dyddiad	Dyddiad y gwnaed y cais.
Dyddiad gorffen y cais	Dyddiad	Wedi'i gynnwys fel gwiriad annibynnol mai dim ond ymgeiswyr presennol ar y rhestr aros a gaiff eu cynnwys.

Cleifion cartrefi gofal â chymorth preifat: Manyleb data 2018-19

Gofynion

- 27 Dylai data a gyflwynir fodloni'r fanyleb data hon h.y. cynnwys pob enw maes.
- 28 Dim ond drwy'r cyfleuster Lanlwytho Ffeiliau Data (DFU) y dylid cyflwyno data; dyma'r unig ddull derbynol o gyflenwi data. Os caiff dull cyflwyno arall ei ddefnyddio, ein polisi yw hysbysu'r Uwch Swyddog Cyfrifol bod data wedi'u rhoi mewn perygl yn ddiangen.
- 29 Dylai data ond cyfeirio at breswylwyr cartrefi gofal presennol pan fydd y Cyngor yn talu am y gofal i gyd neu ran o'r gofal.

Enw'r maes	Fformat y data	Sylwadau
Cyfeirnod yr achos	Nod	
Teitl	Nod	
Cyfenw	Nod	
Enw(au) cyntaf	Nod	Sicrhewch eich bod yn nodi unrhyw enw/enwau canol neu lythyren gyntaf/llythrennau cyntaf unrhyw enw/enwau canol)

Enw'r maes	Fformat y data	Sylwadau
		Gallwch nodi'r rhain mewn maes enw/enwau canol neu lythyren gyntaf/llythrennau cyntaf enw/enwau canol neu yn y gell 'enw(au) cyntaf' os byddai'n well gennych.
Enw/enwau canol neu lythyren gyntaf/llythrennau cyntaf enw/enwau canol	Nod	
Cyfeiriad presennol llinell 1	Nod	Dylid nodi cyfeiriad y cartref gofal.
Cyfeiriad presennol llinell 2	Nod	
Cyfeiriad presennol llinell 3	Nod	
Cyfeiriad presennol llinell 4	Nod	
Cod post y cyfeiriad presennol	Nod	
Dyddiad derbyn	Dyddiad	
Cyfeiriad blaenorol llinell 1	Nod	
Cyfeiriad blaenorol llinell 2	Nod	
Cyfeiriad blaenorol llinell 3	Nod	
Cyfeiriad blaenorol llinell 4	Nod	
Cod post y cyfeiriad blaenorol	Nod	
Dyddiad Geni	Dyddiad	Sicrheir parau o ansawdd gwell drwy gyflwyno'r data hyn.
Rhif Yswiriant Gwladol	Nod	

Parcio i Breswylwyr a Bathodynau Glas: Manyleb data 2018-19

Gofynion

- 30 Dylai data a gyflwynir fodloni'r fanyleb data hon h.y. cynnwys pob enw maes.
- 31 Dim ond drwy'r cyfleuster Lanlwytho Ffeiliau Data (DFU) y dylid cyflwyno data. Dyma'r unig ddull derbyniol o gyflenwi data. Os caiff dull cyflwyno arall ei ddefnyddio, ein polisi yw hysbysu'r Uwch Swyddog Cyfrifol/Cyfarwyddwr Cyllid bod data wedi'u rhoi mewn perygl yn ddiangen.
- 32 Dylai data gael eu lanlwytho mewn dwy ffeil ar wahân:
 - deiliaid presennol trwydded barcio preswlydd; a
 - deiliaid presennol bathodyn glas.

Maes 1 = Y tenantiaid presennol a enwir ar drwydded parcio preswlydd

Maes 2 = Deiliaid presennol bathodyn glas

Enw'r maes	Fformat y data	Sylwadau	Meysydd gofynnol	
			1	2
Rhif cyfeirnod	Nod	Dylid nodi'r cyfeirnod mewnol.	le	le
Rhif y cerdyn/trwydded	Nod	Trwydded y preswlydd ei hun ddylai hyn fod neu gyfeirnod bathodyn glas.	le	le
Teitl	Nod		le	le
Cyfenw	Nod		le	le
Enw(au) cyntaf	Nod	Sicrhewch eich bod yn nodi unrhyw enw/enwau canol neu lythyren gyntaf/llythrennau cyntaf unrhyw enw/enwau canol.	le	le
Enw/enwau canol neu lythyren gyntaf/llythrennau cyntaf enw/enwau canol	Nod	Gallwch nodi'r rhain mewn maes enw/enwau canol neu lythyren gyntaf/llythrennau cyntaf enw/enwau canol ar wahân neu yn y gell 'enw(au) cyntaf' os byddai'n well gennych.	le	le
Cyfeiriad 1	Nod		le	le
Cyfeiriad 2	Nod		le	le
Cyfeiriad 3	Nod		le	le
Cyfeiriad 4	Nod		le	le
Cod Post	Nod		le	le
Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN)	Nod		le	le
Dyddiad geni	Dyddiad		le	le
Rhif yswiriant gwladol	Nod	Mae'n bwysig darparu'r maes hwn pan fo ar gael er mwyn gwella ansawdd prosesau paru data.	le	le
Rhif ffôn gartref	Nod	Cesglir y meysydd hyn at ddibenion paru yn unig ac ni chânt eu dangos o fewn unrhyw barau a drosglwyddir yn ôl i gyfranogwyr eu hadolygu.	le	le
Rhif ffôn symudol	Nod		le	le
Cyfeiriad e-bost	Nod		le	le
Dyddiad dechrau'r drwydded	Dyddiad		le	le

Enw'r maes	Fformat y data	Sylwadau	Meysydd gofynnol	
			1	2
Dyddiad dod i ben y drwydded	Dyddiad		le	le
Baner y math o drwydded	Nod	Rhowch 'B' yn y maes hwn i nodi a yw'r data'n ymwneud â bathodyn glas ac 'R' ar gyfer trwydded preswlydd. Dim ond os na allwch gyflwyno data mewn dwy ffeil ar wahân y bydd angen poblogi'r maes hwn.	le	le

Tocynnau teithio rhatach (OEDOLION YN UNIG) – manyleb data 2018-19

Gofynion

- 33 Dylai data a gyflwynir fodloni'r fanyleb data hon h.y. cynnwys pob enw maes.
- 34 Dim ond drwy'r cyfleuster Lanlwytho Ffeiliau Data (DFU) y dylid cyflwyno data. Dyma'r unig ddull derbyniol o gyflenwi data. Os caiff dull cyflwyno arall ei ddefnyddio, ein polisi yw hysbysu'r Uwch Swyddog Cyfrifol/Cyfarwyddwr Cyllid bod data wedi'u rhoi mewn perygl yn ddiangen.
- 35 Noder bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gyflwyno'r set ddata hon ar sail Cymru gyfan ac felly nad yw'n ofynnol i awdurdodau lleol Cymru gyflwyno'r data a nodir isod.
- 36 Mae'r data sy'n ofynnol ar gyfer pob deiliad tocyn teithio rhatach cyfredol sy'n oedolyn.

Enw maes	Fformat y data	Sylwadau
Rhif cyfeirnod	Nod	Dylid nodi'r cyfeirnod mewnol.
Rhif y cerdyn/trwydded	Nod	Sef cyfeirnod gwirioneddol y tocyn teithio rhatach.
Teitl	Nod	
Cyfenw	Nod	
Enw(au) cyntaf	Nod	Sicrhewch eich bod yn nodi unrhyw enw/enwau canol neu lythyren gyntaf/llythrennau cyntaf unrhyw enw/enwau canol. Gallwch nodi'r rhain mewn maes enw/enwau canol neu lythyren gyntaf/llythrennau cyntaf enw/enwau canol ar
Enw/enwau canol neu lythyren	Nod	

Enw maes	Fformat y data	Sylwadau
gyntaf/llythrennau cyntaf enw/enwau canol		wahân neu yn y gell 'enw(au) cyntaf' os byddai'n well gennych.
Cyfeiriad 1	Nod	
Cyfeiriad 2	Nod	
Cyfeiriad 3	Nod	
Cyfeiriad 4	Nod	
Cod Post	Nod	
Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN)	Nod	
Dyddiad geni	Dyddiad	
Rhif yswiriant gwladol	Nod	Mae'n bwysig darparu'r maes hwn pan fo ar gael er mwyn gwella ansawdd prosesau paru data.
Rhif ffôn gartref	Nod	Cesglir y meysydd hyn at ddibenion paru yn unig ac ni chânt eu dangos o fewn unrhyw barau a drosglwyddir yn ôl i gyfranogwyr eu hadolygu.
Rhif ffôn symudol	Nod	
Cyfeiriad e-bost	Nod	
Dyddiad dechrau'r drwydded	Dyddiad	
Dyddiad dod i ben y drwydded	Dyddiad	
Baner y math o drwydded	Nod	Rhowch 'F' yn y maes hwn ar gyfer tocynnau teithio rhatach

Trwyddedau: Manyleb data 2018-19 (yn cynnwys trwyddedau masnachwyr marchnad, trwyddedau gyrwyr tacsis a thrwyddedau personol ar gyfer cyflenwi alcohol)

Gofynion

- 37 Dylai data a gyflwynir fodloni'r fanyleb data hon h.y. cynnwys pob enw maes.
- 38 Dim ond drwy'r cyfleuster Lanlwytho Ffeiliau Data (DFU) y dylid cyflwyno data; dyma'r unig ddull derbyniol o gyflenwi data. Os caiff dull cyflwyno arall ei ddefnyddio, ein polisi yw hysbysu'r Uwch Swyddog Cyfrifol bod data wedi'u rhoi mewn perygl yn ddiangen.
- 39 Er mwyn sicrhau bod y broses o gyflwyno data gan ddefnyddio'r cyfleuster DFU mor syml â phosibl, dylid lanlwytho data mewn tair ffeil ar wahân:
 - deiliaid presennol trwydded masnachwr marchnad neu drwydded debyg;

- deiliaid presennol trwydded gyrrwr tacsï (cerbydau hurio preifat a cherbydau Hackney); a
- deiliaid presennol 'trwydded alcohol bersonol' os yw deiliad y drwydded hefyd yn 'Oruchwyliwr Mangre Dynodedig' (DPS). Caiff y data hyn eu paru'n bennaf er mwyn nodi incwm nas datganwyd a'r defnydd o arian cyhoeddus. Caiff data ar gyfer y maes hwn eu cynnwys yn y gronfa ddata eiddo.

Maes 1 = deiliaid presennol trwydded masnachwr marchnad neu drwydded debyg

Maes 2 = deiliaid presennol trwydded gyrrwr tacsï, cerbydau hurio preifat a cherbydau Hackney

Maes 3 = deiliaid presennol 'trwydded alcohol bersonol' os yw deiliad y drwydded hefyd yn 'Oruchwyliwr Mangre Dynodedig' (DPS).

Enw'r maes	Fformat y data	Sylwadau	Meysydd gofynnol		
			1	2	3
Rhif cyfeirnod	Nod	Dylai hyn enwi'r unigolyn yn unig h.y. rhif y drwydded.	le	le	le
Teitl	Nod		le	le	le
Cyfenw	Nod		le	le	le
Enw(au) cyntaf	Nod	Sicrhewch eich bod yn nodi unrhyw enw/enwau canol neu lythyren gyntaf/llythrennau cyntaf unrhyw enw/enwau canol.	le	le	le
Enw/enwau canol neu lythyren gyntaf/llythrennau cyntaf enw/enwau canol	Nod	Gallwch nodi'r rhain mewn maes enw/enwau canol neu lythyren gyntaf/llythrennau cyntaf enw/enwau canol ar wahân neu yn y gell 'enw(au) cyntaf' os byddai'n well gennych.	le	le	le
Cyfeiriad llinell 1	Nod		le	le	le
Cyfeiriad llinell 2	Nod		le	le	le
Cyfeiriad llinell 3	Nod		le	le	le
Cyfeiriad llinell 4	Nod		le	le	le
Cod post cyfeiriad	Nod		le	le	le
Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN)	Nod		le	le	le
Dyddiad geni	Dyddiad		le	le	le
Rhif ffôn gartref	Nod	Cesglir y meysydd hyn at ddibenion paru yn unig ac ni chânt eu dangos o fewn unrhyw barau a drosglwyddir yn ôl i gyfranogwyr eu hadolygu.	Na	le	Na
Rhif ffôn symudol	Nod		Na	le	Na
Cyfeiriad e-bost	Nod		Na	le	Na
Rhif yswiriant gwladol	Nod		le	le	le
Enw eiddo	Nod	Mae'r maes hwn yn ofynnol er mwyn cadarnhau bod y data ond yn ymwneud â deiliaid PAL sydd wedi'u cofrestru fel DPS.	Na	Na	le
Dyddiad dechrau'r drwydded	Dyddiad		le	le	le
Dyddiad dod i ben y drwydded	Dyddiad		le	le	le

Enw'r maes	Fformat y data	Sylwadau	Meysydd gofynnol		
			1	2	3
Baner y math o system ¹	Nod	Rhowch 'M' yn y maes hwn i nodi bod y data yn ymwneud â masnachwr/gweithredwr marchnad, 'T' am yrrwr tacsï neu 'P' am drwydded bersonol i gyflenwi alcohol.	le	le	le

Treth Gyngor: manyleb data 2018-19

Gofynion

- 40 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i ddata'r dreth gyngor gael eu cyflwyno bob blwyddyn a thrwy NFI Recheck. Cynhelir yr ymarfer nesaf yn ystod 2018-19. Mae hyn yn golygu, pan fyddwch wedi cyflwyno setiau data ar gyfer y dreth gyngor a'r gofrestr etholiadol ar gyfer prosesau paru twyll disgownt person sengl, gall y Fenter Twyll Genedlaethol ryddhau eich parau (oni fyddwch yn dod ar draws problemau o ran data y bydd angen i ni eu datrys). Ni fydd angen i chi aros i bob cyngor gyflwyno ei ddata.
- 41 Cyfeiriwch at ddisgownt person sengl y dreth gyngor ar ein [gwefan](#) i gael dyddiadau a dyddiadau cau pwysig.
- 42 Er mai cyfrifoldeb y corff unigol yw trefnu i'r data angenrheidiol gael eu hechdynnu, rydym yn annog yr egwyddor o rannu arferion echdynnu er mwyn gwneud y broses yn fwy effeithlon a darbodus. Er enghraifft, rydym yn ymwybodol bod arferion echdynnu safonol yn cael eu cynnig gan bob un o brif gyflenwyr system y Dreth Gyngor. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am hyn, cysylltwch â'ch cyflenwr system.
- 43 Dylai data gael eu diogelu gan gyfrinair ar ôl eu hechdynnu o'r systemau perthnasol.
- 44 Dylai data a gyflwynir fodloni'r fanyleb data hon h.y. cynnwys pob enw maes.
- 45 Dylid cyflwyno data gan ddefnyddio'r cyfleuster Lanlwytho Ffeiliau Data o fewn cymhwysiad gwe y Fenter Twyll Genedlaethol.
- 46 Dim ond cyfrifon cyfredol/gweithredol y dylid eu hechdynnu.
- 47 Dylai'r maes Cyfeirnod Eiddo Unigryw gael ei gynnwys yn eich cyflwyniad os yw wedi ei boblogi neu ei boblogi'n rhannol.

¹ Dim ond os na allwch gyflwyno data mewn tair ffeil ar wahân y bydd angen poblogi'r maes hwn.

- 48 Mae maes dyddiad geni wedi'i gynnwys, ond derbynnir nad yw'n cael ei storio fel mater o drefn am nad yw'n orfodol ar gyfer codi treth gyngor. Fodd bynnag, os caiff ei nodi, hyd yn oed fel maes dewisol, dylid ei gynnwys yn y data a echdynnwyd.
- 49 Os nad yw'r meysydd cyfenw ac enw cyntaf wedi eu poblogi'n llawn, neu os nad ydynt wedi eu poblogi, bydd dal angen i'r meysydd hyn gael eu darparu gan fod yn rhaid iddynt gael eu mapio er mwyn i'r lanlwytho gael ei dderbyn. Mewn achosion fel hyn, bydd systemau treth gyngor fel arfer hefyd yn cynnwys maes cyfanredol sy'n cynnwys manylion yr holl enwau. Pan fydd hyn yn digwydd, dylai'r maes cyfanredol hefyd gael ei ddarparu fel y gellir ei fapio i'r maes 'Enw llawn' o fewn y fanyleb.
- 50 Dylai'r data a echdynnwyd ymwneud â'r holl gyfrifon treth gyngor, p'un a oes disgownt neu eithriad ai peidio. Felly, dylai hyn gynnwys pob eiddo domestig h.y., lle mae'r dreth gyngor yn gymwys.
- 51 Mae'r broses lanlwytho yn cynnwys mapio meysydd yn awtomatig i'r fanyleb gan ddefnyddio system adnabod enwau maes. Fodd bynnag, os nad oes unrhyw enwau maes o fewn y data a echdynnwyd, bydd angen i'r person sy'n lanlwytho fapio pob maes â llaw i'r maes priodol o fewn y fanyleb ar system y Fenter Twyll Genedlaethol. Felly, byddai'n well cynnwys enwau maes yn y ffeil data os yw hynny'n bosibl.

Enw maes	Fformat y data	Sylwadau
Cyfeirnod Cyfrif y Dreth Gyngor	Nod	Dylai hyn fod yn unigryw.
Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN)	Nod	Dylai pob UPRN fod yn unigryw. Dylai pob UPRN a ddelir gael ei gynnwys yn y cyflwyniad hyd yn oed os nad yw'r maes wedi ei boblogi'n llawn.
Teitl	Nod	
Cyfenw	Nod	
Enw cyntaf	Nod	
Enw canol neu lythyren gyntaf enw canol	Nod	
Enw llawn	Nod	Gall rhai systemau (gan gynnwys Academy) ddarparu holl fanylion eu henwau mewn un maes h.y. teitl, cyfenw, enw cyntaf, enw canol. Dim ond os nad yw'r meysydd cyfenw ac enw canol wedi eu poblogi y dylid cynnwys y maes hwn yn y data a echdynnwyd.

Enw maes	Fformat y data	Sylwadau
Dyddiad Geni	Dyddiad	Ni chaiff y data hyn eu casglu o reidrwydd ond dylid eu darparu os yw'n angenrheidiol.
Cyfeiriad 1	Nod	
Cyfeiriad 2	Nod	
Cyfeiriad 3	Nod	
Cyfeiriad 4	Nod	
Cod Post	Nod	
Teitl y person atebol arall	Nod	
Enw cyntaf y person atebol arall	Nod	
Cyfenw y person atebol arall	Nod	
Enw canol (llythyren gyntaf enw canol) y person atebol arall	Nod	
Dyddiad geni'r person atebol arall	Dyddiad	Mae'n bwysig darparu'r maes hwn pan fo ar gael er mwyn gwella ansawdd prosesau paru data.
Dyddiad dechrau disgownt/eithriad	Dyddiad	
Dyddiad dod i ben y disgownt/eithriad	Dyddiad	
Math o ddisgownt/cod y gostyngiad	Nod	Rhowch faner i nodi'r math o ddisgownt/cod disgownt*
Math o ddiystyru/cod diystyru	Nod	Rhowch faner i nodi'r math o ddiystyru/cod diystyru**
Math o eithriad/cod yr eithriad	Nod	Rhowch faner i nodi'r math o ddiystyru/cod diystyru**
Dangosydd derbynydd budd-dal/CTR	Nod	I/N o ddewis. Dylid darparu'r faner hon os yw ar gael.
Dangosydd gostyngiad i'r anabl	Nod	I/N o ddewis. Dylid darparu'r faner hon os yw ar gael.
Band y Dreth Gyngor	Nod	A i l
Swm y Dreth Gyngor	Rhifol	Dylai hyn gyfateb i'r atebolrwydd llawn e.e. yn ôl y system fandiio cyn y disgownt
Swm y Disgownt/Eithriad	Rhifol	Dylai hyn gyfateb i'r swm gostyngol/eithriedig gwirioneddol yn hytrach na'r swm sy'n daladwy ar ôl y disgownt/eithriad.
Cyfeiriad bilio 1	Noa	

Enw maes	Fformat y data	Sylwadau
Cyfeiriad bilio 2	Nod	Gellid galw hwn yn gyfeiriad anfon ymlaen ar eich system, ond os bydd disgownt ail gartref yn gymwys dyma ble y dylid cofnodi cyfeiriad y brif breswylfa.
Cyfeiriad bilio 3	Nod	
Cyfeiriad bilio 4	Nod	
Cod post y cyfeiriad bilio	Nod	

*PWYSIG – Mae cynnwys y maes math o ddisgownt yn gallu amrywio rhwng systemau ond yn amlach na pheidio bydd yn cynnwys y gair 'UNIGOL' pan fydd disgownt person sengl. Bydd y cyfleuster lanlwytho yn edrych am y ddyfais adnabod hon felly byddai'n werth cadarnhau bod y maes hwn yn dilyn y safon hon.

** Gall achosion o ddiystyru ac eithrio amrywio rhwng systemau ond byddem yn disgwyl rhywbeth tebyg i'r canlynol:

Diystyru

- Myfyriwr: cofnod maes awgrymedig = MYFYRIWR

Eithrio

- DOSBARTH A: Anaddas i fyw ynddo
- DOSBARTH B: Yn eiddo i elusen heb ei feddiannu < 6 mis
- DOSBARTH C: Heb ei feddiannu heb ei ddodrefnu < 6 mis
- DOSBARTH D: Heb ei feddiannu yn y carchar/y ddalfa o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl
- DOSBARTH E: Heb ei feddiannu yn yr ysbyty/cartref gofal/hostel
- DOSBARTH F: Heb ei feddiannu profiant heb ei roi
- DOSBARTH G: Heb ei feddiannu meddiannaeth wedi ei gwahardd gan y gyfraith
- DOSBARTH H: Heb ei feddiannu yn aros am weinidog yr efengyl
- DOSBARTH I: Heb ei feddiannu yn derbyn gofal
- DOSBARTH J: Heb ei feddiannu i ddarparu gofal
- DOSBARTH K: Heb ei feddiannu myfyriwr-berchennog
- DOSBARTH L: Heb ei feddiannu adfeddiannwyd gan fenthyciwr morgais
- DOSBARTH N: Pob meddiannwr yn fyfyriwr
- DOSBARTH O: Llety'r lluoedd arfog
- DOSBARTH S: Pob meddiannydd o dan 18 oed
- DOSBARTH T: Heb ei feddiannu fflat mam-gu/staff
- DOSBARTH U: Pob meddiannydd â nam difrifol ar y meddwl
- DOSBARTH V: Diplomat person atebol
- DOSBARTH W: Wedi ei feddiannu gan berthynas dibynnol

Cofrestru Etholiadol: manyleb data 2018-19

Gofynion

- 52 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i ddata cofrestru gael eu cyflwyno bob blwyddyn a thrwy NFI Recheck. Cynhelir yr ymarfer nesaf yn ystod 2018-19. Mae hyn yn golygu, pan fyddwch wedi cyflwyno setiau data ar gyfer y dreth gyngor a'r gofrestr etholiadol ar gyfer prosesau paru twyll disgownt person sengl, gall y Fenter Twyll Genedlaethol ryddhau eich paru (oni fyddwch yn dod ar draws problemau o ran data y bydd angen i ni eu datrys). Ni fydd angen i chi aros i bob cyngor gyflwyno ei ddata.
- 53 Cyfeiriwch at amserlen disgownt person sengl y dreth gyngor ar ein [gwefan](#) i gael dyddiadau a dyddiadau cau pwysig.
- 54 Dylai'r data hyn fod yn gyfystyr â 'fersiwn llawn' y Gofrestr Etholiadol (nid yw 'fersiwn wedi'i golygu' sydd ar gael yn fasnachol).
- 55 Rhaid i'r data gael eu diogelu gan gyfrinair ar ôl eu hechdynnu o'r systemau perthnasol.
- 56 Mae'r broses lanlwytho yn cynnwys mapio meysydd i'r fanyleb yn awtomatig yn ôl dull adnabod enwau maes. Fodd bynnag, os nad oes unrhyw enwau maes o fewn y data a echdynnwyd, bydd angen i'r person sy'n lanlwytho fapio pob maes â llaw i'r maes priodol o fewn y fanyleb ar system y Fenter Twyll Genedlaethol. Felly, byddai'n well cynnwys enwau maes o fewn y data a echdynnwyd os yw hynny'n bosibl.
- 57 Os nad yw'r meysydd cyfenw ac enw cyntaf wedi eu poblogi'n llawn, neu os nad ydynt wedi eu poblogi, bydd dal angen i'r meysydd hyn gael eu darparu gan fod yn rhaid iddynt gael eu mapio er mwyn i'r lanlwytho gael ei dderbyn. Mewn achosion fel hyn, bydd systemau cofrestru etholiadol fel arfer hefyd yn cynnwys maes cyfanredol sy'n cynnwys manylion yr holl enwau. Pan fydd hyn yn digwydd, dylai'r maes cyfanredol hefyd gael ei ddarparu fel y gellir ei fapio i'r maes 'Enw llawn' o fewn y fanyleb.
- 58 Dylai'r maes Cyfeirnod Eiddo Unigryw gael ei gynnwys yn eich cyflwyniad os yw wedi ei boblogi'n llawn neu ei boblogi'n rhannol.

Enw maes	Fformat y data	Sylwadau
Cyfeirnod y Gofrestr Etholiadol	Nod	Dylai hyn fod yn unigryw.
Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN)	Nod	Dylai pob UPRN fod yn unigryw. Dylai pob UPRN a ddelir gael ei gynnwys yn y cyflwyniad hyd yn oed os nad yw'r maes wedi ei boblogi'n llawn.
Teitl	Nod	

Enw maes	Fformat y data	Sylwadau
Cyfenw	Nod	
Enw cyntaf	Nod	
Enw canol neu lythyren gyntaf enw canol	Nod	
Cyfeiriad 1	Nod	
Cyfeiriad 2	Nod	
Cyfeiriad 3	Nod	
Cyfeiriad 4	Nod	
Cod Post	Nod	
Dyddiad geni neu ddyddiad cyrhaeddiad	Dyddiad	Dylai hwn fodoli pan fydd aelod o'r cartref wedi cyrraedd, neu pan fydd ar fin cyrraedd, oedran aeddfedrwydd (18 oed ar hyn o bryd).
Enw llawn	Nod	Dim ond os yw'r enw cyfan yn yr un maes o fewn y system Cofrestru Etholiadol ac na ellir ei rannu yn feysydd cyfenw ac enw cyntaf ar wahân y dylai hyn gael ei ddarparu.

Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: manyleb data 2018-19

Echdynnu

- 59 Er mai cyfrifoldeb y corff unigol yw trefnu i'r data angenrheidiol gael eu hechdynnu, rydym yn annog yr egwyddor o rannu arferion echdynnu er mwyn gwneud y broses yn fwy effeithlon a darbodus. Rydym mewn cysylltiad â'r prif gyflenwyr systemau gyda'r bwriad o'u helpu i lunio arferion echdynnu safonol.

Gofynion

- 60 Yn unol ag arfer da wrth ymdrin â data personol, mae'n ofynnol i chi ddiogelu pob set ddata â chyfrinair ar ôl ei hechdynnu o'r systemau perthnasol. Yn unol ag arfer da wrth ymdrin â data personol, mae'n ofynnol i chi ddiogelu pob set ddata â chyfrinair ar ôl ei hechdynnu o'r systemau perthnasol.
- 61 Dylai data a gyflwynir fodloni'r fanyleb data hon h.y. cynnwys pob enw maes.
- 62 Dim ond drwy ddefnyddio'r cyfleuster lanlwytho o fewn y cymhwysiad gwe y dylid cyflwyno data.
- 63 Dim ond cyfrifon cyfredol/byw lle mae Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn cael ei gymhwysu a ddylai gael eu hechdynnu.

- 64 Dylai'r maes Cyfeirnod Eiddo Unigryw gael ei gynnwys yn eich cyflwyniad hyd yn oed os yw wedi ei boblogi'n rhannol yn unig
- 65 Dim ond drwy ddefnyddio'r cyfleuster lanlwytho o fewn y cymhwysiad gwe y dylai data gael eu cyflwyno. Dim ond cyfrifon cyfredol/byw lle mae Cynllun Gostyngiadau'r Dreth gyngor yn cael ei gymhwyso a ddylai gael eu hechdynnu. Dylai'r maes Cyfeirnod Eiddo Unigryw gael ei gynnwys yn eich cyflwyniad os yw wedi ei boblogi neu ei boblogi'n rhannol.

Maes	Fformat y data	Sylwadau
Cyfeirnod y cyfrif	Nod	Gall Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gael ei weinyddu o fewn y system referniw a budd-daliadau neu system annibynnol.
Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN)	Nod	Darparwch lle y bo ar gael. Dylai pob UPRN fod yn unigryw.
Teitl yr hawlydd	Nod	
Cyfenw'r hawlydd	Nod	
Enw cyntaf yr hawlydd	Nod	
Enw canol neu lythyren gyntaf enw canol	Nod	
Rhif yswiriant gwladol yr hawlydd		
Dyddiad geni'r hawlydd	Dyddiad	
Cyfeiriad 1	Nod	
Cyfeiriad 2	Nod	
Cyfeiriad 3	Nod	
Cyfeiriad 4	Nod	
Cod Post	Nod	
Dyddiad dechrau gostyngiadau'r dreth gyngor	Dyddiad	
Dyddiad dod i ben gostyngiadau'r dreth gyngor	Dyddiad	
Band y dreth gyngor	Nod	A i l
Swm y dreth gyngor	Rhifol	Swm wythnosol.
Swm gostyngiad y dreth gyngor (heb gynnwys unrhyw ddisgownt neu eithriad arall)	Rhifol	Swm wythnosol.
Incwm yr hawlydd o enillion	Rhifol	Incwm wythnosol o enillion.

Maes	Fformat y data	Sylwadau
Cyfalaf/cynilion yr hawlydd a ddatganwyd	Rhifol	Cyfanswm a ddatganwyd.
Incwm pensiwn galwedigaethol yr hawlydd	Rhifol	Incwm pensiwn galwedigaethol wythnosol.
Incwm credyd cynilion credyd pensiwn yr hawlydd	Rhifol	Incwm ychwanegol.
Incwm credyd gwarant credyd pensiwn yr hawlydd	Rhifol	Incwm wythnosol lle y bo ar gael (fel arall rhowch faner yn y maes isod).
Baner incwm credyd gwarant credyd pensiwn yr hawlydd	Nod	le neu na.
Incwm cymhorthdal incwm yr hawlydd.	Rhifol	Incwm wythnosol lle y bo ar gael (fel arall rhowch faner yn y maes isod).
Baner incwm cymhorthdal incwm yr hawlydd.	Nod	le neu na.
Incwm lwfans ceisio gwaith yr hawlydd.	Rhifol	Incwm wythnosol lle y bo ar gael (fel arall rhowch faner yn y maes isod).
Baner incwm lwfans ceisio gwaith yr hawlydd	Nod	le neu na.
Incwm Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yr Hawlydd	Rhifol	Incwm wythnosol lle y bo ar gael (fel arall rhowch faner yn y maes isod).
Baner incwm Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yr Hawlydd.	Nod	le neu na.
Baner myfyriwr sy'n hawlydd	Nod	le, na, anhysbys.
Teitl y Partner	Nod	
Cyfenw'r partner	Nod	
Enw cyntaf y partner	Nod	
Enw canol y partner	Nod	
Dyddiad geni'r partner	Dyddiad	
Yswiriant gwladol y partner rhif	Nod	
Incwm y partner o enillion	Rhifol	Incwm wythnosol o enillion.
Pensiwn galwedigaethol y partner	Rhifol	Incwm pensiwn galwedigaethol wythnosol.

Data hanes taliadau credydwy'r masnach: manyleb data 2018-19

Gofynion

- 66 Dylai data a gyflwynir fodloni'r fanyleb data hon h.y. cynnwys pob enw maes.
- 67 Dim ond drwy'r cyfleuster Lanlwytho Ffeiliau Data (DFU) y dylid cyflwyno data. Dyma'r unig ddull derbyniol o gyflenwi data. Os caiff dull cyflwyno arall ei ddefnyddio, ein polisi yw hysbysu'r Uwch Swyddog Cyfrifol/Cyfarwyddwr Cyllid bod data wedi'u rhoi mewn perygl yn ddiangen.
- 68 Dylai data hanes taliadau credydwy'r masnach gwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2015 hyd at y dyddiad echdynnu (11 Hydref 2018). Lle bu newid yn system y credydwy'r yna, gellir derbyn, o leiaf, ddata hanes taliadau ar gyfer 1 Ebrill 2018 hyd y dyddiad echdynnu.

Maes	Fformat y data	Sylwadau
Cyfeirnod y credydwr	Nod	Dyma'r un cyfeirnod â'r un a ddangosir yn y fanyleb data sefydlog. Gweler y nodyn isod ¹ ar gynnwys rhif adnabod Safle.
Rhif adnabod safle	Nod	Os gall credydwy'r masnach gael mwy nag un cyfeiriad, dylai fod yn bosibl eu nodi ar wahân drwy'r rhif adnabod safle ¹ .
Rhif anfoneb y cyflenwr	Nod	Dylid nodi'r cyfeirnod a ddangosir ar anfoneb y cyflenwr – rhif fel arfer ond gall gynnwys rhagddodiaid neu ôl-ddodiaid alffa.
Rhif anfoneb mewnol/system	Nod	Mae'r rhan fwyaf o systemau yn cynhyrchu rhif trafodyn dilyniannol, unigryw fel y gellir nodi pob anfoneb, nodyn credyd, taliad ac ati ar wahân.
Dyddiad yr anfoneb	Dyddiad	Dylid nodi'r dyddiad ar yr anfoneb, ond gellid nodi'r dyddiad mewnbynnu os nad yw dyddiad yr anfoneb ar gael.
Dyddiad talu	Dyddiad	Os na thalwyd yr anfoneb gadewch hyn yn wag. Yn yr achosion hynny, os bydd eich system yn cofnodi dyddiad rhagosodedig yn y maes hwn ac felly na allwch ei adael yn wag, rhowch wybod i ni beth yw'r dyddiad rhagosodedig.
Cyfanswm yr anfoneb	Rhifol	Mae 'cyfanswm yr anfoneb' yn cynnwys TAW, llai unrhyw ddisgownt. Fodd bynnag, mae rhai systemau'n cynnwys symiau nad ydynt

Maes	Fformat y data	Sylwadau
		yn cynnwys TAW, lle mae'r ffigur ar gyfer TAW wedi'i gofnodi ar wahân. Yn yr achos hwn, dylid ychwanegu'r ffigurau hyn at ei gilydd i roi 'cyfanswm yr anfoneb'.
Swm TAW	Rhifol	Dylai fod yn bosibl nodi hyn ar wahân ar gyfer pob anfoneb ond gallai gyfateb i ddim os na chodir TAW arni, os yw wedi'i heithrio rhag TAW neu os yw y tu allan i gwmpas TAW.
Dull talu	Nod	e.e. BACS, siec, arian, archeb daladwy ac ati. Os defnyddir codau, dylid anfon eglurhad o'r codau wrth gyflwyno'r data.
Rhif cyfeirnod y taliad	Nod	Dylai'r maes hwn gynnwys cyfeirnod y siec, yr archeb daladwy neu'r BACS a ddefnyddiwyd i dalu'r anfoneb. Golyga hyn y byddai gan anfonebau a dalwyd gyda'i gilydd yr un rhif siec/archeb daladwy/rhif BACS
Sylwadau	Nod	Gellir defnyddio'r ffeil hon fel maes di-destun i gynnwys gwybodaeth a all fod o gymorth i chi wrth ymchwilio i barau.

¹ Os darperir rhif adnabod safle yn nata hanes taliadau, dylai hefyd gael ei gynnwys ar y data sefydlog fel bod maes cysylltu unigryw rhwng y ddwy set ddata. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl sefydlu taliadau cronol i safleoedd credydwy'r masnach unigol (a atodir i'r data sefydlog) ac i atodi enwau'r credydwy'r masnach i bob trafodyn ar y ffeil hanes taliadau.

Data sefydlog credydwy'r masnach: manyleb data 2018-19

Gofynion

- 69 Dylai data a gyflwynir fodloni'r fanyleb data hon h.y. cynnwys pob enw maes.
- 70 Dim ond drwy'r cyfleuster Lanlwytho Ffeiliau Data (DFU) y dylid cyflwyno data; dyma'r unig ddull derbynol o gyflenwi data. Os caiff dull cyflwyno arall ei ddefnyddio, ein polisi yw hysbysu'r Uwch Swyddog Cyfrifol/Cyfarwyddwr Cyllid bod data wedi'u rhoi mewn perygl yn ddiangen.
- 71 Dylai data sefydlog fod yn gyfredol ar y dyddiad echdynnu ac ni ddylai gynnwys credydwy'r segur na chredydwy'r gohiriedig.

Cyfenw	Fformat y data	Sylwadau
Cyfeirnod y credydwr	Nod	Dyma'r rhif adnabod unigryw ar gyfer credydwr unigryw. Gall fod ar ffurf llinyn rhifol neu llinyn alffa rhifol.
Rhif adnabod safle	Nod	Os gall credydwyr masnach gael mwy nag un cyfeiriad, dylai fod yn bosibl eu nodi ar wahân drwy'r rhif adnabod safle ¹ .
Enw'r credydwr	Nod	
Cyfeiriad 1	Nod	Os nodir y cyfeiriad mewn un maes, defnyddiwch faes cyfeiriad 1.
Cyfeiriad 2	Nod	
Cyfeiriad 3	Nod	
Cyfeiriad 4	Nod	
Cod Post	Nod	
Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN)	Nod	Dylai'r maes newydd hwn wella'r broses o baru cyfeiriadau yn sylweddol.
Rhif ffôn	Nod	Gall hyn gynnwys cod yr ardal/STD. Dylid ei allbynnu fel maes nodau er mwyn sicrhau na cholli'r prif seroau.
Cod didoli'r banc	Nod	Chwe nod rhifol mewn grwpiau o ddau y gellir eu gwahanu â chysylltnodau e.e. 20-45-23.
Rhif y cyfrif banc	Nod	Wyth nod rhifol fel arfer.
Rhif neu gyfeirnod cofrestru'r gymdeithas adeiladu	Nod	Mae gan gymdeithasau adeiladu rif cofrestru neu gyfeirnod sy'n nodi'r cyfrif unigol lle y telir symiau iddo ar ôl cael eu talu i un cyfrif dal. Dylid gadael hwn yn wag ar gyfer cyfrifon banc arferol.
Math o gredydwr ²	Nod	Er enghraifft: 0 = credydwr masnach, 1 = budd-daliadau, 2 = cyflogres, 3 = ffactor, 4 = grantiau, 5 = dros dro/ untro, ac ati. Wedyn rhowch eglurhad o'r codau a ddefnyddiwyd. Os nad yw'r math hwn o ddynodydd ar gael o'r system byddai'n fanteisiol i chi lenwi'r maes hwn i'ch galluogi i hidlo'r allbwn yn haws a chanolbwyntio adnoddau ar y parau mwyaf buddiol, yn eich barn chi.

¹ Os darperir rhif adnabod safle yn y ffeil data sefydlog, dylai hefyd gael ei gynnwys ar y ffeil hanes taliadau fel bod maes cysylltu unigryw rhwng y ddwy set ddata. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl sefydlu taliadau cronol i safleoedd credydwyr masnach unigol (a atodir i'r data sefydlog) ac i atodi enwau'r credydwyr masnach i bob trafodyn ar y ffeil hanes taliadau.

² Dim ond os na allwch ddarparu ddata credydwy'r masnach yn unig y bydd angen poblogi'r maes hwn, h.y. mae'r cyflwyniad yn cynnwys mathau eraill o gredydwy'r.

Cyllidebau personol: manyleb data 2018-19

Gofynion

- 72 Dylai data a gyflwynir fodloni'r fanyleb data hon h.y. cynnwys pob enw maes.
- 73 Dim ond drwy'r cyfleuster Lanlwytho Ffeiliau Data (DFU) y dylid cyflwyno data. Dyma'r unig ddull derbynol o gyflenwi data. Os caiff dull cyflwyno arall ei ddefnyddio, ein polisi yw hysbysu'r Uwch Swyddog Cyfrifol/Cyfarwyddwr Cyllid bod data wedi'u rhoi mewn perygl yn ddiangen.
- 74 Dylai data gyfeirio at daliadau cyllideb bersonol a dalwyd fel taliadau uniongyrchol i'r ymgeiswyr hynny sydd dros 18 oed yn unig.
- 75 Cynnwys derbynwyr presennol yn unig.
- 76 Sicrhau mai dim ond un cofnod sydd ar gyfer pob derbynnydd.

Enw'r maes	Fformat y data	Sylwadau
Teitl	Nod	e.e., Mr, Mrs, Ms, Dr, Syr, Cyng., Arglwydd.
Rhyw	Nod	Rhaid i hyn nodi 'G' ar gyfer Gwryw, 'B' ar gyfer Benyw neu ei adael yn wag.
Enw(au) cyntaf	Nod	
Enw/enwau canol neu lythyren gyntaf/llythrennau cyntaf enw/enwau canol	Nod	
Cyfenw	Nod	
Rhif yswiriant gwladol	Nod	Mae'n bwysig darparu'r maes hwn pan fo ar gael er mwyn gwella ansawdd prosesau paru data.
Cyfeiriad llinell 1	Nod	
Cyfeiriad llinell 2	Nod	
Cyfeiriad llinell 3	Nod	
Cyfeiriad llinell 4	Nod	
Cod Post	Nod	
Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN)	Nod	
Dyddiad geni	Dyddiad	
Dyddiad dechrau (ar gyfer taliadau uniongyrchol, cyllideb bersonol)	Dyddiad	

Enw'r maes	Fformat y data	Sylwadau
Cyfeirnod yr hawliad	Nod	Sef y cyfeirnod mewnol unigryw.
Swm blynyddol a dalwyd	Rhifol	<p>Sef y swm blynyddol a dalwyd. Dylai symiau ariannol gael eu darparu heb arwydd £ a chan ddefnyddio'r fformat punnoedd a cheiniogau h.y., 12345.67.</p> <p>Sylwer:</p> <ul style="list-style-type: none"> • rhaid darparu symiau ariannol yn yr un fformat drwy gydol y ffeil; • caiff cofnodion a ddarperir fel ceiniogau yn unig (h.y. 123456) eu trosi fel £123456.00; ac • os na ellir darparu gwerthoedd ariannol dylid gadael y maes yn wag. Peidiwch â rhoi sero.
Dyddiad y gwnaed y taliad uniongyrchol/cyllideb bersonol ddiwethaf	Dyddiad	
Baner Budd-dal Tai	Nod	Dylech gynnwys 'Y' yn y maes hwn i nodi bod rhywun sy'n cael cyllideb bersonol yn cael budd-dal tai (fel arall gadewch hwn yn wag).
Baner incwm pensiynau	Nod	Dylech gynnwys 'Y' yn y maes hwn i nodi bod rhywun sy'n cael cyllideb bersonol yn cael incwm pensiynau (fel arall gadewch hwn yn wag).

Atodiad 1

Setiau Data i'w cyflwyno gan gyfranogwyr y Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer 2018-19

Setiau Data yn ofynnol gan gyfranogwyr gorfodol

Math o awdurdod	Set ddata orfodol
Awdurdodau unedol	<ul style="list-style-type: none">• Cyflogres• Pensiynau• Hanes taliadau a masnach credydwy• Data sefydlog credydwy• Tenantiaid Tai,• Rhestr aros am dai• Treth Gyngor (2019/20)• Cofrestr etholiadol (2019/20)• Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS)• Preswylwyr cartrefi gofal â chymorth preifat• Parcio i Breswylwyr a Bathodynnau Glas• Trwyddedau - masnachwr/gweithredwr marchnad, gyrrwr tacsï a thrwyddedau personol i werthu alcohol• Cyllideb bersonol (taliadau uniongyrchol)
Corff yr heddlu ² Awdurdod tân ac achub	<ul style="list-style-type: none">• Cyflogres• Pensiynau• hanes taliadau a data sefydlog credydwy masnach
bwrdd iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG	<ul style="list-style-type: none">• Cyflogres• hanes taliadau a data sefydlog credydwy masnach

² Mae hyn yn cynnwys comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstablïaid yr heddlu.

Setiau data y gall cyfranogwyr gwirfoddol eu cyflwyno

Cyfranogwyr gwirfoddol	set ddata
	<ul style="list-style-type: none">• Cyflogres• Pensiynau (os ydych yn gweithredu eich cynllun pensiwn eich hun)• Hanes taliadau a masnach credydwyr Data sefydlog credydwyr• Tenantiaid tai (Cymdeithasau Tai yn unig)• Rhestr aros am dai (Cymdeithasau Tai yn unig)• Tocynnau teithio rhatach (Llywodraeth Cymru yn unig)

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru